*This document is available in English* **Eitem Agenda 17**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens, Clerc (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Swyddog Priodol ar gyfer a.36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** |

## Pwrpas yr Adroddiad

1. Penodi'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc i gyflawni rôl swyddog priodol, a elwir yn "berson cymwysedig", a all gymhwyso'r eithriad o dan adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("DRhG")

## Crynodeb Gweithredol

2. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod yr wybodaeth a gadwant ar gael ar gais. Mae rhai categorïau gwybodaeth (e.e. gwybodaeth fasnachol sensitif neu wybodaeth sy'n ymwneud ag atal neu ganfod trosedd) yn destun eithriadau a gellir eu dal yn ôl. Dim ond y "person cymwysedig" all arfer un eithriad o'r fath o dan adran 36, sef gwybodaeth a allai beryglu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol. Yn Lloegr, defnyddir offeryn statudol i ddynodi pa swyddogion all weithredu fel y "person cymwysedig", ond yng Nghymru mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus ddynodi'r "person cymwysedig" eu hunain.

## Argymhellion

3. Argymhellir bod yr Aelodau'n:

   i) dynodi'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc fel y personau cymwysedig at ddiben cymhwyso'r eithriad yn adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## Arsylwadau'r Panel Gweithredol/Pwyllgor Archwilio

4. Nid yw'r Pwyllgor Archwilio na'r Panel Gweithredol wedi ystyried y papur hwn o'r blaen.

**Cefndir**

5. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ddarparu unrhyw wybodaeth sydd yn eu meddiant pan wneir cais ysgrifenedig amdani, ar yr amod nad yw'r wybodaeth dan sylw wedi'i heithrio. Mae sawl categori eithrio, gan gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif neu wybodaeth sy'n ymwneud ag atal neu ganfod trosedd. Gellir dirprwyo'r holl eithriadau, heblaw am un, yn y ffordd arferol. Mae'r eithriad o dan adran 36, peryglu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol, yn anarferol gan mai dim ond y "person cymwysedig" a all ei arfer.

**Gwybodaeth**

6. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ei hun yn pennu, mewn perthynas â threfniadaeth cyrff cyhoeddus, pwy a ddynodir yn "berson cymwysedig". Yn Lloegr, mae offeryn statudol sy'n diffinio mai'r Prif Weithredwr/Prif Swyddog Tân a'r Swyddog Monitro yw'r person cymwysedig. Nid oes offeryn statudol o'r fath yng Nghymru, ac felly mae'n rhaid i'r Awdurdod ddynodi ei "berson cymwysedig" ei hun.

7. Gellir cymhwyso'r eithriad pan

   ym marn resymol y person cymwysedig, byddai datgelu'r wybodaeth o dan y Ddeddf hon yn—

   (a)…

   (b) atal, neu yn debygol o atal,—

      (i) cyngor rhag cael ei roi yn rhydd a didwyll, neu

      (ii) barn rhag cael ei chyfnewid yn rhydd a didwyll wrth drafod, neu

   (c) yn peryglu fel arall, neu'n debygol o beryglu fel arall, cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol.

8. Cyhoeddwyd canllawiau manwl gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gymhwyso'r eithriad ond, yn fras, rhaid penderfynu a fyddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o amharu ar sut y rhoddir cyngor i gynghorwyr neu ar y ffordd y mae'r awdurdod yn gweithredu. Hynny yw, a fyddai swyddogion yn gallu rhoi cyngor llawn a phriodol, ac a fyddai cynghorwyr yn gallu ei dderbyn, os oes posibilrwydd y bydd y cyngor yn cael ei gyhoeddi rhyw dro? Er mai mater i awdurdodau cyfansoddol yw hyn fel arfer, mae achlysuron pan fo cynghorwyr eisiau gallu gofyn cwestiynau a cheisio cyngor mewn "man diogel" - cwestiynau ar ffurfio polisïau, er enghraifft.

9. Yn amlwg, mae'r Awdurdod Tân yn agored ac yn dryloyw iawn yn y ffordd y mae'n gweithio. Pur anaml y defnyddiwyd ac y defnyddir yr eithriad, os defnyddir ef o gwbl. Fodd bynnag, mae'r dynodiad yn bwysig fel mesur wrth gefn. Trwy gyfyngu ar nifer y personau cymwysedig, gall yr Awdurdod gael sicrwydd y bydd yn cael ei gymhwyso'n ddoeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb ar gyfer 2024/25 | Ni fydd dynodi personau cymwysedig yn cael unrhyw effaith ar y gyllideb |
| Cyfreithiol | Byddai'n rhaid i'r Awdurdod arfer y swyddogaeth ei hun os na chaiff ei dirprwyo. |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Cynhyrchwyd yr adroddiad ar ffurf ddwyieithog |
| Risgiau | Os na ellir cymhwyso'r eithriad adran 36, gallai pob cofnod o'r cyngor a roddwyd i gynghorwyr fod yn destun datgeliad posibl o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. |